Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Crynodeb o'r Cyfarfod

Cyfarfu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ("y Pwyllgor") ar 29 Ebrill 2026.

Fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo'r canlynol:

- ymateb y sefydliad i lythyr ymholiadau twyll blynyddol Archwilio Cymru.

Daeth yr eitemau arwyddocaol canlynol i law i roi sicrwydd arnynt:

- diweddariad ar gynnydd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26.
- adroddiadau adolygu archwiliadau mewnol: Cyfriflyfr Cyffredinol, Rheolaeth Gyllidebol a Rheolaeth Ariannol, Cynllunio Strategol.
- Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2025/26
- Cofnod Gweithredu, yn dilyn yr Archwiliadau Mewnol ac Allanol, o'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn yr archwiliad.
- diweddariad ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Adroddiad Sicrwydd y Trefniadau Gwrth-dwyll.
- Cofrestr Buddiannau, Rhoddion, Lletygarwch, a Nawdd 2026/27.
- Diweddariad ar Gyllid ac Adnoddau - roedd hwn yn cynnwys y cyfrifon rheoli ar gyfer Mawrth 2026.

Fe wnaeth y Pwyllgor nodi'r canlynol:

- Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth, Chwarter 4 2025/26.
- yr Adroddiad Diweddaru ar Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 4, 2025/26.
- yr adolygiad dwywaith y flwyddyn o'r polisïau.
- Cynllun Gweithredu Hunanasesu'r Pwyllgor (diweddariad) 2025/26.
- Llythyr Cyllido Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru 2026/27.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried fersiwn drafft cynnar o Adroddiad y Cyfarwyddwr 2025/26 hefyd.